

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Rydym yn dechrau cynllunio ein taith rygbi a phêl-rwyd nesaf i Dubai ac Abu Dhabi dros wyliau Pasg 2024, mewn cydweithrediad ag Edwin Doran, arbenigwyr profiadol yn y maes hwn.

Bydd y daith yn agored i ddisgyblion blwyddyn 8 a 9 presennol.

Fe fydd y daith yn para 9 noson/8 diwrnod, yn gadael ar brynhawn dydd Iau 21ain o Fawrth ac yn dychwelyd ar ddydd Gwener 29ain o Fawrth 2024.

Cost y daith fydd £2250. Mae'r pris yma'n cynnwys trafnidiaeth bws i'r maes awyr; costau awyren allan ac yn ôl a theithio rhwng gweithgareddau; llety a bwyd (brecwast am 7 bore a swper am ddwy noson); gweithgareddau gan gynnwys **Desert Dune Safari; Warner Bros World Abu Dhabi; Wild Wadi; Dubai's premier Water Park; Burj Khalifa;** yswiriant llawn yn cynnwys Cofid, a theithio ar gyfer gemau rygbi/pêl-rwyd. Nid yw bwyd amser cinio wedi ei gynnwys yn y pris. Byddwn yn trefnu gweithgareddau codi arian cyn y daith er mwyn archebu cit llawn i'r disgyblion. Os oes unrhyw syniadau neu os oes gennych chi ddiddordeb i noddi cit chwarae ar gyfer y daith, mae croeso i chi i gysylltu â'r adran.

Rhennir cost y daith i daliadau misol. Bydd angen blaendal o £350 erbyn dydd Iau 3ydd Fawrth 2022, ac yna ail daliad o £350 erbyn 10fed o Fehefin 2022. Bydd gweddill y gost angen cael ei dalu mewn taliadau misol sydd i'w gadarnhau.

Os oes diddordeb gyda'ch plentyn i fynychu'r daith yma, yna a fydd yn bosib dychwelyd y daflen ganiatâd isod gyda'r blaendal cyntaf o £350 erbyn dydd Iau 3ydd o Fawrth 2022. **Dim ond lle i 38 o ddisgyblion fydd ar y daith, felly byddwn yn gweithredu system o'r 38 taliad cyntaf a dderbynnir fydd yn cadarnhau lle ar y daith.**

Yr eiddoch yn gywir,

(Adran Addysg Gorfforol)

**Yr wyf yn caniatáu i'm plentyn fynychu'r daith chwaraeon i Abu Dhabi yn 2024.
Enw, cyfeiriad a rhif ffôn y disgybl:**

LLOFNOD RHIANT / GWARCHEIDWAD : _____

Am fwy o wybodaeth dilynwch y ddolen isod ar wefan yr ysgol
[Ysgol Gyfun Bryn Tawe- Netball & Rugby Tour to Dubai & Abu Dhabi 2024 \(promo\)](#)



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwryosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

swyddfabryntawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWR
MEWN POBL** | Aur





Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
swyddfabryntawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWYR | Aur
MEWN POBL

